

MARSHAL (TEULU), ieirll Penfro

WILLIAM MARSHAL (I) (1146? - 1219), rhaglaw Lloegr

Y cyntaf o'r teulu a fu'n iarl Penfro a Striguil. Mab ydoedd i John Fitz Gilbert ('John the Marshal') a'i ail wraig Sibyl, chwaer Patrick de Salisbury, iarl cyntaf Wiltshire. Yn 1189 rhoddwyd Isabel, iarlles Striguil a Phenfro, merch **Richard de Clare**, yn wraig iddo gan y brenin Rhisiart, a thrwy'r briodas hon fe'i dyrchafwyd i safle uchel fel tîrffediannwr yn Lloegr, Iwerddon, a Normandi yn ogystal ag ym Mhenfro a Gwent. O hyn allan bu ef, a'i feibion ar ei ôl, â dylanwad enfawr ganddynt ar gwrs hanes politicaidd a milwrol Cymru a'r gororau. Yn ystod rhyfel **Rhys ap Gruffydd** yn erbyn Normaniaid Deheudir Cymru yn 1192, efe oedd un o arweinwyr yr ymgyrch a ryddhaodd gastell Abertawe ac achub Gŵyr rhag y Cymry; cododd arian hefyd ar gyfer yr ymladd. O'i benodi'n geidwad castell Aberteifi yn 1202 gan y brenin John, tyfodd ei awdurdod pwerus yn y gororau. Yn 1204 enillodd gastell Cilgerran yn Emlyn - arglwyddiaeth yr oedd ganddo hawl iddi - oddi wrth **Faelgwn ap Rhys**, a chyfyngu rheolaeth y tywysog i gyffiniau Ceredigion. Tra parhaodd y gynnen a fu rhyngddynt yn 1207-11, cymerodd y brenin gastell Aberteifi o ddwylo William Marshal a'i gyflwyno i William de London yn 1207. Ond yn 1211 galwodd y brenin arno eto i'w gynorthwyo ynglŷn â'r ymgyrch yn erbyn y Cymry ac adferwyd iddo ei gestyll yn Lloegr a Chymru. Yn y flwyddyn ddilynol bu'n ymladd o blaid y brenin yn erbyn **Llywelyn ap Iorwerth**. Erbyn hyn yr oedd y brenin ac yntau ar delerau cyfeillgar; ar 19 Hydref 1213 adferwyd castell Hwlfordd iddo ac yn 1214 cyflwynwyd iddo gestyll brenhinol Aberteifi, Caerfyrddin, a Gŵyr. Efe oedd prif gynrychiolydd y brenin yn Neheudir Cymru yn ystod ymryson y blynyddoedd hyn a phenodwyd ef yn bencadfridog barwniaid teyrngar y gororau yn erbyn **Llywelyn ap Iorwerth** a'r tywysogion eraill a oedd mewn cynghrair â barwniaid gwrthryfelgar teyrnas y brenin John. Ni bu'n llwyddiannus iawn yn amddiffyn ei diroedd a'i gestyll yn Nyfed pan ymosododd **Maelgwn ap Rhys** a'i nai, Rhys Ieuanc, arnynt yn 1215. Daeth y rhyfela i ben gyda Chytundeb Caerwrangon (Mawrth 1218) ac er mwyn sicrhau heddwch trwy'r deyrnas caniatodd William Marshal i **Llywelyn ap Iorwerth** fod yn geidwad cestyll brenhinol Aberteifi a Chaerfyrddin, ond daliodd ei afael ar Gaerleon a enillasai oddi wrth **Morgan ap Hywel** yn 1217. Bu'n gymwynaswr i abatai Tintern, Penfro, a Pill, a chyflwynodd siartr i dref Hwlfordd. Bu farw 15 Mai 1219.

WILLIAM MARSHAL II (bu farw 1231)

Y cyntaf o bum mab William Marshal (I) a fu'n ieirll Penfro yn eu tro. Yn 1220 ymosodwyd ar ei dreftadaeth ef yn Nyfed gan **Llywelyn ap Iorwerth** a gwynasai fod deiliaid yr iarl yn gormesu ar y Cymry er gwaethaf y cadoediad. Ar ôl anfon apel i'r brenin gwnaed cytundeb rhyngddynt. Yn 1223 ymddialodd yr iarl ar **Llywelyn** pan ddaeth â byddin o Iwerddon i ailgymryd Aberteifi a Chaerfyrddin a hefyd Emlyn, a gorfu i'r tywysog ddyfod i gytundeb. Penodwyd yr iarl yn gwnstabl cestyll Aberteifi a Chaerfyrddin a bu'r cestyll yn ei ddwylo hyd 1226. Cafodd gymorth Cynan ap Hywel ap Rhys yn y brwydro hwn, ac am ei wasanaeth rhoddodd yr iarl Emlyn ac Ystlywyf iddo. Parhaodd Caerleon yn ei feddiant hyd ddiwedd ei oes er gwaethaf yr ymryson a fu rhyngddo â'r brenin a **Morgan ap Hywel** ynglŷn â'i hawliau yno. Yn 1228 cymerodd ran yn rhyfelgyrch arglwyddi'r gororau yn erbyn **Llywelyn**. Bu farw Ebrill 1231.

RICHARD MARSHAL (bu farw 1234)

Ail fab William Marshal (I), a ddilynodd ei frawd William yn yr iarlaeth. Ef oedd arweinydd y barwniaid a fu'n gwrthwynebu Harri III a'i gynghorwyr estronol. Daeth terfyn ar y brwydro parhaus rhwng y Marshaliaid a **thywysog Gwynedd**, a ffurfiwyd cynghrair rhyngddynt er gwrthsefyll byddin y Goron yn rhyfel y gororau yn 1233-4. Ar ddechrau'r rhyfel enillodd y brenin Frynbuga oddi wrth Richard ond sefydlwyd cadoediad byr ar 6 Medi 1233. Pan wrthododd Richard adfer Caerleon i **Forgan ap Hywel** ni ollyngai'r brenin ei afael ar Frynbuga. Ar 15 Hydref aildechreuodd y rhyfel ac ymunodd **Llywelyn** â'r iarl. Adenillwyd Brynbuga, ac ar ôl cydweithrediad rhwng eu byddinoedd yn nyffryn Wysg syrthiodd nifer o gestyll, gan gynnwys Abergafenni, i ddwylo'r iarl. Ymosodwyd ar y brenin yn Grosmont c. 17 Tachwedd a gorfu iddo gilio i Henffordd. Gorchfygwyd ei fintai hefyd ger Trefynwy. Yn Ionawr 1234 bu Richard a **Llywelyn** wrthi'n diffeithio'r gororau. Ar ôl y buddugoliaethau hyn croesodd Richard i Iwerddon, ac ym mis Mawrth penderfynodd y brenin alw am gadoediad. Ar 15 Ebrill bu Richard farw yn Iwerddon.

GILBERT MARSHAL (bu farw Mehefin 1241)

Y trydydd o bum mab William Marshal (I), oedd olynnydd Richard. Derbyniwyd ef yn ffafrïol gan Harri III, ac ar 9 Rhagfyr cyflwynwyd iddo gestyll a threfydd Caerfyrddin ac Aberteifi. Yn 1235 rhoddwyd Morgannwg yn ei ofal yn ystod maboe yr etifedd, a chafodd hefyd arglwyddiaeth Caerfyrddin. Cadwodd **Forgan ap Hywel** allan o'i dreftadaeth yng Nghaerleon, ac yn 1236 dug gastell ym Machen oddi wrtho am ysbaid. Bu'n gymwynaswr i abaty Tintern ac ysbyty gwahangleifion Mair Magdalen yn Hwlfordd.

WALTER MARSHAL (bu farw 24 Tachwedd 1245)

Anfonwyd Walter gan ei frawd, yr iarl Gilbert, i gryfhau amddiffynfa Aberteifi yn 1240; cymerodd hefyd dros ei frawd diroedd yn perthyn i arglwyddiaeth Caerfyrddin - cymydau Ystlywyf ac Emlyn-uwch-Cuch - ac yna cyflwynodd yr iarl hwy i **Maredudd ap Rhys Gryg**. Ar ôl etifeddu'r iarlaeth (1234) nid ymddengys iddo fod yn flaenllaw yng Nghymru.

ANSELM MARSHAL (bu farw 1245)

Bu Anselm, yr olaf o feibion William Marshal y rhaglaw, farw yn Rhagfyr 1245 cyn ei urddo'n iarl Penfro. Fel ei frodyr yr oedd yn ddiblant.

Awdur

Dr Bertie George Charles, (1908 - 2000)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

The Complete Peerage of England, Scotland, Ireland, Great Britain, and the United Kingdom (1887â€“1898), x, 353-76

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II

S. Painter, *William Marshal, knight-errant, Baron and Regent of England* (Baltimore 1933)

Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales (1935) (gol. J. G. Edwards), 2-5, 12-3, 29-30, 34, 36, 48, 51

Littere Wallie (1940) (gol. J. G. Edwards), 38-9

R. F. Walker, 'Richard Marshal and the Rising of 1233-4' (traethawd M.A., Prifysgol Cymru, 1950)

K. Norgate, *The Minority of Henry III* (Llundain 1912)

F. M. Powicke, *King Henry III and the Lord Edward the community of the realm in the thirteenth century*(Rhydychen 1947)

Darllen Pellach

Thomas Asbridge, *The Greatest Knight* (London 2015)

ODNB: Marshal, William [called the Marshal], fourth earl of Pembroke

William Marshal, Earl of Pembroke, gwefan Castles of Wales, gwelwyd 28 Mai 2019

BBC News: Earl of Pembroke William Marshal honoured with tapestry

Erthygl Wicipedia: William Marshal, Iarll 1af Penfro

Erthygl Wicipedia: William Marshal, 2il Iarll Penfro

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733877

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Charles, B. G., (1953). MARSHAL (TEULU), ieirll Penfro. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MARS-HAL-1146>

Griffiths

Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government